Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw

Caneuon Ffydd: Rhif 207

Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw,
ni syfl o'i le, nid ie a nage yw;
cyfamod gwir, ni chyfnewidir chwaith;
er maint eu pla, daw tyrfa i ben eu taith.

Cyfamod rhad, o drefniad Un yn Dri,
hen air y llw a droes yn elw i ni;
mae'n ddigon cry' i'n codi i fyny'n fyw,
ei rym o hyd yw holl gadernid Duw.

Cyfamod cry', pwy ato ddyry ddim?
Nid byd na bedd all dorri'i ryfedd rym;
diysgog yw hen arfaeth Duw o hyd,
nid siglo mae fel gweinion bethau'r byd.

Er llithro i'r llaid a llygru defaid Duw
cyfamod sy i'w codi i fyny'n fyw,
a golchi i gyd eu holl aflendid hwy,
a'u dwyn o'r bedd heb ddim amhuredd mwy.

EDWARD JONES, 1761–1836

MYFYRDOD

Datguddia Duw ei hun inni fel Duw sydd yn gwneud cyfamod â'i bobl. Gras Duw sydd wrth wraidd ei holl gyfamodau â dyn drwy'r Beibl a thros amser. O'r ardd yn Eden hyd yr ardd honno ym Mharadwys, mae yna waed wedi ei dywallt yn dystiolaeth gyson o ras Duw nes i'r drefn gael ei digoni yn aberth Crist: 'Oherwydd y mae Crist, ein Pasg ni, wedi ei aberthu' (1 Cor. 5:7). Dyma gyfamod terfynol, cadarn ac unplyg – 'nid oedd ef yn "Ie" ac yn "Nage". "Ie" yw'r gair a geir ynddo ef' (2 Cor. 1:19). Nid oes gan Edward Jones, Maes y Plwm, ddim prinder deunyddiau i sôn amdanynt, felly yn yr emyn hwn y mae ef ei hun yn ei alw'n 'Cyfamod Gras', gyda holl rychwant y Beibl o'i flaen. Yn wir, mae ganddo naw pennill yn y testun gwreiddiol o'r emyn hwn. Fe ddetholwyd

pedwar yma, sef y ddau gyntaf a'r ddau olaf. Mae'n rhaid dethol yn aml er mwyn cael emyn i'w ganu, a dethol dro arall er mwyn cael gwared â phenillion eilradd. Ond mae'r naw yma yn rhai arbennig i gyd. Sylwch ar grefft arbennig ac odlau cyrch y pennill hwn a adawyd allan:

Does bwlch yn hwn, fel modrwy'n grwn y mae;
A'i glwm mor glos, heb os ac oni bai:
Nid all y plant ddim gwerthu eu meddiant mwy;
Mae gan Dduw gylch, a'u deil, o'u hamgylch hwy.

Hwn fu'r emyn cyntaf yng nghasgliad y Methodistiaid Calfinaidd o 1869 ymlaen, ac nid heb gwyno y bu'n rhaid iddo ildio ei le! Fel hyn y sonia O. M. Edwards amdano yn ei gylchgrawn *Cymru*, 21: 'Yr oedd emyn cyntaf hen lyfr hymnau'r Methodistiaid yn agoriad ardderchog: y mae emyn Edward Jones, Maes y Plwm, mor nodweddiadol o gynulleidfa o Galfiniaid, ac efe yw'r mwyaf mawreddog o holl emynau Cymru.'

Roedd Edward Jones yn 26 mlwydd oed erbyn iddo ef gael profiad o dröedigaeth gan dderbyn amodau'r Cyfamod â Duw, sef dod i berthynas â'i Fab, Iesu Grist. Ond pymtheg oed oedd Daniel Jones ei fab yn ysgrifennu llw ac yn cyfamodi â Duw yng nghapel bach Llyn y Pandy ger yr Wyddgrug lle'r oedd ei dad yn cynnal ysgol. Braf fuasai dyfynnu'r cyfan ohono, ond gwnawn y tro ar ychydig fel hyn er mwyn dangos arwyddocâd gwneud 'cyfamod' yng ngeirfa a phrofiad Calfiniaid y dydd: 'Yr wyf fi Daniel Jones, fab Edward Jones . . . ar ôl i blant yr ysgol hon, a'm tad innau, fyned adref o'r capel . . . yng ngŵydd y Duw mawr hollbresennol . . . yn cymryd fy llw . . . fy mod o hyn allan . . . yn ymroddi i fyw i Dduw mewn gwirionedd, a bod yn llestr cysegredig iddo . . . a hyn a wnaf trwy gymorth Duw . . . A'm holl ffaeleddau, yr wyf yn erfyn ar Dduw eu maddeu. – Amen.' Yr oedd yn genhadwr ar Fryniau Casia ymhen pymtheng mlynedd arall ac yn marw yno o'r dwymyn ymhen llai na blwyddyn wedyn.

GWEDDI

O Dad, gwyddom nad oes dim yn sicr yn y byd hwn, ac er bod gwedd wael ar Eglwys Iesu Grist yn ein gwlad, diolchwn fod dy Gyfamod Gras yn dal i sefyll:

'mae'n ddigon cry' i'n codi i fyny'n fyw,
ei rym o hyd yw holl gadernid Duw.' Amen.